**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

10 Hydref 2024

**Gofalwyr ifanc**

Annwyl Lynne,

Ar 23 Medi cyfarfûm â chynrychiolwyr yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr i siarad am y materion sy'n wynebu gofalwyr ifanc yng Nghymru. Buom yn trafod data'r cyfrifiad, sy'n dangos bod tua 8,000 o ofalwyr rhwng 5 a 17 oed yng Nghymru, ac effaith gwasanaethau addysg ar fywydau'r plant hyn.

Trafodwyd adroddiad diweddar yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, 'Carers and classes: the education gap for young carers', sy'n canfod, yn Lloegr:

- Yn 2022/23, collodd gofalwyr ifanc fwy na mis o'u haddysg ar gyfartaledd (23 diwrnod o'r ysgol), o'i gymharu â 14 diwrnod ar gyfer disgyblion eraill.
- Roedd bron i hanner (46 y cant) y gofalwyr ifanc yn yr ysgol uwchradd yn Lloegr yn absennol yn gyson yn 2022/23. Mae hyn yn golygu eu bod wedi colli o leiaf 10 y cant o'r ysgol. Mae hynny'n un diwrnod ysgol bob pythefnos.
- Dywedodd bron i hanner (48 y cant) y gofalwyr ifanc eu bod wedi cael eu bwlio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae mwy na dau o bob pump (44 y cant) o ofalwyr ifanc yn aml yn ei chael hi'n anodd astudio ar gyfer profion neu arholiadau oherwydd gofynion eu sefyllfa ofalu.

Yn anffodus, nid yw'r data sylfaenol sy'n sail i'r canfyddiadau hyn ar gael yng Nghymru gan nad oes gennym ddata sy'n nodi pwy yw'r gofalwyr ifanc mewn addysg. Yn Lloegr, ychwanegwyd gofalwyr ifanc at y cyfrifiad ysgolion ar gyfer 2022-23, gan ein galluogi i ddeall yn well effeithiau addysgol posibl cyfrifoldebau gofal ar gyfer plant oed ysgol (ac, o ganlyniad, rhoi ymyriadau ar waith i helpu'r plant hyn i gyflawni eu potensial).

Rwy'n nodi bod adolygiad Estyn 2019 yn dweud bod "diffyg data dibynadwy i nodi faint o ofalwyr ifanc sydd mewn ysgolion, UCDau a cholegau ledled Cymru", a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo wedi hynny i archwilio sut i gasglu data cenedlaethol am ofalwyr ifanc. Fodd bynnag, clywais nad oes llawer o gynnydd wedi cael ei wneud yn hyn o beth. Rwy'n deall, wrth gwrs, bod y pandemig yn anochel wedi achosi oedi o ran cynnydd gwaith o'r fath. Fodd bynnag, mae dros bum mlynedd bellach ers i'r ymrwymiad hwnnw gael ei wneud.

A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch y maes gwaith hwn? Byddem yn gwerthfawrogi gwybodaeth ynghylch pam y bu oedi cyn gweithredu'r newidiadau i'r cyfrifiad ysgol a chamau nesaf Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer gweithredu unrhyw newidiadau arfaethedig.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ateb erbyn 22 Tachwedd 2024 fan bellaf.

Yn gywir,

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English